

Social Services & Well-being Act

Population Needs Assessment Gwent Region Report

Summary



Greater Gwent Health, Social Care &
Well-being Partnership
Partneriaeth Lles, Iechyd a Gofal
Cymdeithasol Gwent Fwyaf

Crynodeb Gweithredol Asesiad Anghenion y Boblogaeth (AAB)

Cyflwyniad

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn gofyn bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cynhyrchu, ar y cyd, asesiad o anghenion y boblogaeth (AAB) o'r angen am ofal a chefnogaeth ac anghenion gofalwyr yn yr ardaloedd llywodraeth leol am gefnogaeth. Mae gofal a chefnogaeth mewn perthynas â phobl sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r rheiny sy'n cael eu cefnogi trwy wasanaethau ataliol. Mae'r AAB yn cynnwys dwy adran:

- Asesu'r graddau iddynt y mae yna bobl neu eu gofalwyr sydd angen gofal a chefnogaeth a hyd a lled y gefnogaeth y mae ei hangen.
- Asesu ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen ar gyfer anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth, eu gofalwyr, i atal anghenion rhag codi a chynyddu, a'r camau y mae eu hangen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg

Cyhoeddwyd asesiad cyntaf y boblogaeth yn Ebrill 2017. Cyhoeddodd y BPRh wedyn gynllun gweithredu rhanbarthol ar y cyd yn Ebrill 2018 yn gosod allan sut oedd mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr AAB. Mae'r BPRh nawr wedi datblygu eu hail AAB i Went. Gwahoddwyd trigolion a phartneriaid i roi sylwadau ar yr anghenion a amlygwyd a'r blaenoriaethau sy'n datblygu, a defnyddiwyd y sylwadau i ddatblygu'r AAB terfynol a gytunwyd gan y BPRh, awdurdodau lleol a BIPAB.

Bydd y ddogfen a'i chynnwys yn ganolog i hyrwyddo Lles, cefnogi pobl ar y cyfle cyntaf i gynnal eu hannibyniaeth a helpu pobl i helpu eu hunain yn well.

Sut i weld Asesiad Anghenion y Boblogaeth (AAB)

‘Beth yw hyn a beth nad yw!’

- 1** Nid yw'r AAB yn rhestr hollgynhwysol o ddata graffigol ond mae'n nodi ble mae data pellach ar gael.
- 2** Bydd y AAB yn cynnwys dolenni at wybodaeth gefnogol arall fel yr Asesiadau Lles sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – nid ydym am ddyblygu darnau mawr o wybodaeth yn yr AAB sydd wedi eu cynnwys mewn dogfennau eraill.
- 3** Mae'r AAB wedi ei seilio ar farn trigolion a darparwyr, ac mae cyd-gynhyrchiant yn egwyddor graidd ar gyfer dyluniad. Cynorthwyodd trigolion a darparwyr i nodi canlyniadau blaenoriaeth o dan bob thema graidd.
- 4** Ni fydd yr AAB yn cynnwys na'n cyfeirio at bob ffynhonnell data sydd ar gael – bydd hynny'n llawer rhy fawr, ond byddwn yn defnyddio catalog data Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a ddatblygwyd gan Ddata Cymru fel man cychwyn.
- 5** Nid yw'r AAB yn dechrau gyda 'thudalen lân' gan fod yna nifer o asesiadau anghenion presennol, a rhai sydd wedi eu cwblhau o'r blaen a datganiadau safle yn y farchnad sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol.
- 6** Bydd y penodau thema graidd yn darllen fel crynodebau gweithredol ac yn amlygu blaenoriaethau rhanbarthol sy'n datblygu a'r partneriaethau lefel uchel a gwasanaethau sy'n gallu cefnogi'r agenda.
- 7** Bydd y penodau thema graidd hefyd yn cynnwys datganiad safle yn y farchnad a fydd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Ardal ar y cyd sy'n sail.
- 8** Bydd yr AAB yn gosod cyfeiriad y daith ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol – dyma'r 'fffenestr siop' o ran blaenoriaethau a'r

camau nesaf – a bydd dadansoddiad mwy manwl, mapio gwasanaethau a chamau yn cael eu cyflwyno yn y Cynllun Ardal ar y cyd.

Blaenoriaethau sy'n Datblygu sydd i'w Gyrru Trwy'r Cynllun Ardal ar y Cyd

Plant a Phobl Ifanc

Blaenoriaethau sy'n Datblygu:

- 1 Gwella deilliannau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth trwy ymyrraeth fwy cynnar, cefnogaeth yn y gymuned a gosodiadau yn nes at gartref.
- 2 Sicrhau iechyd meddwl da a lles emosiynol i blant a phobl ifanc trwy waith partneriaeth effeithiol sy'n lleddfu'n arbennig effaith tymor hir pandemig Covid-19.

Crynodeb Safle yn y Farchnad

- Mae yna angen i barhau i gryfhau gwasanaethau a phartneriaethau o gylch dull drws ffrynt unigol i leihau trosglwyddiadau rhwng sefydliadau a sefydlu dull olynol ar gyfer anghenion niferus ar gyfer ymyrraeth.
- Bydd y BPRh yn parhau i weithredu egwyddorion NEST/NYTH ar draws pob gwasanaeth er mwyn parhau i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i blant, pobl ifanc a theuluoedd wrth i ni symud at ddull system gyfan.
- O ystyried y rhaglen newydd o flaenoriaeth y llywodraeth i ddileu elw mewn gofal preswyl i blant, bydd y BPRh yn cefnogi'r agenda yma a hefyd yr ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol sy'n helpu lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Pobl Hŷn

Blaenoriaethau sy'n Datblygu:

- 1 Gwella lles emosiynol i bobl hŷn trwy leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol a chydnerthedd cymunedol.
- 2 Gwella deilliannau i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr.
- 3 Cefnogi pobl hŷn i fyw, neu i ddychwelyd ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, i'w cartrefi a'u cymunedau eu hunain trwy ymyrraeth gynnar, modelau gofal integredig a dull system gyfan.

4

Lleddfu effaith tymor hir pandemig Covid-19 trwy leihau rhestrau ac amserau aros i gael cefnogaeth, apwyntiadau a thriniaethau meddygol.

Crynodeb Safle yn y Farchnad

- Mae yna angen cynyddol i gefnogi ymhellach lles emosiynol i bobl hŷn, trwy leihau unigrwydd a phroblemau arwahanrwydd a darparu ymyrraeth gynnar a chefnogaeth gymunedol i hybu lles.
- Mae angen i ni gryfhau partneriaethau, gwasanaethau a modelau cyd-gynhyrchu i wella deilliannau i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr.
- Bydd angen i'r BPRh gryfhau partneriaethau ac arferion ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector annibynnol/trydydd sector i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i aros gartref cyhyd â phosibl, a dychwelyd adref o'r ysbyty trwy ddull uwch o ail-alluogi.

Pobl ag Anableddau

Blaenoriaethau sy'n Datblygu:

1

Cefnogi pobl anabl, gan gynnwys amhariad synhwyrdd, trwy ddull pob oed, i fyw'n annibynnol mewn llety priodol a chael mynediad at wasanaethau cymunedol, gan gynnwys trafndiaeth.

2

Sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi trwy fynediad at wybodaeth gywir, cymorth ac 'adferiad' ble mae angen.

3

Gwella trosglwyddiad ar draws pob grŵp oedran a gwasanaethau cefnogol.

Crynodeb Safle yn y Farchnad

- Mae angen i'r BPRh sicrhau bod pob gweithiwr rheng flaen yn derbyn yr hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r pyrth gwybodaeth a safleoedd amrywiol sy'n rhoi cyngor defnyddiol i'r cyhoedd, a fydd yn gofyn am hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth.
- Mae angen cynyddu recriwtio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys rolau penodol fel Swyddogion Ailsefydlu ar gyfer Nam ar y Golwg.

Pobl ag Anableddau Dysgu

Blaenoriaethau sy'n Datblygu:

- 1 Cefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw'n annibynnol gyda mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar yn y gymuned; a mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a dealltwriaeth o anghenion pobl ag anableddau.

Crynodeb Safle yn y Farchnad

- Mae yna angen i gynyddu nifer y pecynnau cymorth penodol ac unigol i bobl ag anabledd dysgu a fydd yn golygu mwy o gefnogaeth un wrth un yn y gymuned a bydd yn gofyn am nifer fwy o wirfoddolwyr.

Anhwylder y Sbectrwm Awtistaidd

Blaenoriaethau sy'n Datblygu:

- 1 Darparu diagnosis mwy prydlon o Anhwylder y Sbectrwm Awtistaidd a mynediad at wasanaethau cymorth a gwybodaeth a chynghor.
- 2 Gwella ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a derbyniad o bobl awtistaidd.

Crynodeb Safle yn y Farchnad

- Mae yna angen cynyddol i gyflenwi hyfforddiant ac ymwybyddiaeth awtistiaeth i bartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol ac ehangach y BPRh yn ogystal â'r cyhoedd yn ehangach.

Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl

Blaenoriaethau sy'n Datblygu:

- 1 Mwy o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ymhlith y cyhoedd er mwyn lleihau stigma a helpu pobl i chwilio am gymorth yn gynt.
- 2 Gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl i oedolion a phlant trwy ymyrraeth gynnar a chefnogaeth gymunedol.

Crynodeb Safle yn y Farchnad

- Mae angen i ni hyrwyddo lles meddyliol pobl yng Ngwent a sicrhau bod y gweithlu'n cael eu cefnogi er mwyn gallu rhoi'r gefnogaeth y mae ei hangen i bobl ar yr adeg gywir.

Gofalwyr Di-dâl a Gofalwyr Ifanc / Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc

Blaenoriaethau sy'n Datblygu:

1

Cefnogi gofalwyr di-dâl i ofalu trwy seibiant hyblyg, mynediad at wybodaeth gywir, cefnogaeth cymheiriaid, cynllunio gofal effeithiol a thrwy fwy o ddealltwriaeth gyhoeddus

2

Gwella lles gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc a lleddfu effaith tymor hir pandemig Covid-19

Crynodeb Safle yn y Farchnad

- Mae yna angen o hyd i godi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr ac i staff rheng flaen allu adnabod pan fo pobl yn derbyn cyfrifoldebau gofal ac yn cael eu cyfeirio at wybodaeth, yn enwedig gofalwyr ifanc.
- Mae cefnogaeth rhwng cymheiriaid a darpariaeth o wasanaeth seibiant yn cael eu hamlygu'n aml fel blaenoriaeth i ofalwyr ac mae angen cynyddu cefnogaeth trwy bartneriaid trydydd sector a chymunedol i gynyddu cyfleoedd cyfeillio a grwpiau cymunedol.

Tai

Blaenoriaethau sy'n Datblygu:

1

Dull partneriaeth aml-asiantaeth i sicrhau tai a llety priodol i bobl hŷn a thrigolion sy'n agored i niwed

2

Sicrhau defnydd effeithiol o'r Grantiau Cyfleusterau Anabl a chefnogaeth bartneriaeth briodol ac adnoddau sydd ar gael.

3

Digartrefedd yn gofyn am ymateb cydweithredol gan wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid, yn enwedig dim defnydd o lety gwely a brecwast i bobl ifanc, a thrwy atal ac ymyrraeth gynnar.

Camau nesaf a'r Cynllun Ardal ar y cyd

Mae rheoliadau'r trefniant partneriaeth o 2015 yn gofyn bod awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn ffurfio partneriaethau er mwyn cwblhau asesiadau o'r boblogaeth sy'n ofynnol o dan adran 14(1) Deddf 2014. Dylai'r Cynlluniau Ardal y mae gofyn iddynt gael eu paratoi gan awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan adran 14A gael eu paratoi ar y cyd hefyd. Bydd datblygu Cynllun Ardal yn creu cysondeb gyda'r broses o asesu'r boblogaeth ac yn cyfrannu'n helaeth at yr amcan o wasanaethau gofal a chefnogaeth cynaliadwy ac integredig. Bydd hefyd yn galluogi partneriaid i gyflawni dyletswydd adran 14A(2)(f) Deddf 2014 i gyflwyno manylion unrhyw beth y maen nhw'n cynnig gwneud ar y cyd mewn ymateb i asesiad y boblogaeth.

Dylai'r Cynllun Ardal nodi'r gwasanaethau gofal a chefnogaeth benodol y cynigir y byddant yn cael eu darparu neu eu trefnu mewn perthynas â phob thema graidd a sut y bydd camau'n cael eu cyflenwi:

- **Ar y cyd gan bartneriaid;**
- **gan bob awdurdod lleol unigol; a gan y Bwrdd Iechyd Lleol.**

Mae'r AAB yma wedi amlygu'r blaenoriaethau sy'n ddatblygu o dan bob thema craidd ochr yn ochr â chrynodeb safle yn y farchnad. Sail y Cynllun Ardal fydd y blaenoriaethau ym mhob thema graidd. Mae yna ddau fath o gam a awgrymir.

1. Camau y mae eu hangen i wella deilliannau i bobl a hyrwyddo lles

2. Camau i wella prosesau rhanbarthol

Mae'r blaenoriaethau i'w dwyn trwy'r Cynllun Ardal wedi eu gosod gerbron a byddwn y datblygu dadansoddiad mwy gwydn o gamau y mae eu hangen i gyflenwi deilliannau trwy ddatblygiad y Cynllun Ardal. Byddwn hefyd yn gosod gerbron yn fanwl y camau y mae eu hangen i ddatblygu dull rhanbarthol.

Gweithio mewn Partneriaeth

